
# Tymor yr Haf (ii) 2019 — Blwyddyn 1 a 2 Mrs Williams, Mr Jones, Mrs Evans, Miss Furlong a Mrs Rh. Hiley

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR



## Thema'r hanner tymor yw: Cuddfannau a Dant y Llew

**Datblygiad Creadigol**

Astudio ac efelychu gwaith yr arlunydd Henri Rousseau.

Mwynhau gwrando ar synau yn yr awyr agored a defnyddio offer TGCh i'w recordio. Dysgu ystod o ganeuon yn ymwneud a'r thema.

Creu cysgodfeydd yn y goedwig gan ddefnyddio offer naturiol.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener. Rhaid i ni ei ddychwelyd ar ddydd Llun. Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Blwyddyn 2)

**Datblygiad Mathemategol**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100 o leiaf.
- Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu i ffwrdd, lluosi a rhannu.
- Defnyddio arian, parhau i ddatblygu sgiliau dweud yr amser a datblygu ein sgiliau datrys problem.
- Chwarae llawer o gêmau mathemateg pen.

**Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu**

- Creu cornel chwarae 'Cuddfan yn y goedwig'
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, a dysgu sut i ysgrifennu **adroddiad ffeithiol** a **ffeil o ffaith.**
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBrynymor1**

**Addysg Grefyddol (Tymor yr Haf)**

Astudio Stori Joseff o'r Beibl a Stori 'Yr Adar Bach', sef stori dradodiadol Fwslemaidd.

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**

Parhau i ddatblygu ein sgiliau codio.

Datblygu sgiliau graffeg gan ddefnyddio offer cyfrifiadurol.

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

- Dysgu am gynefin coedwig yng Nghymru a beth sy'n byw ac yn tyfu yno;
- Cymharu coedwig yng Nghymru â Choedwig Law.

**Datblygiad Corfforol**

- Datblygu sgiliau trin pêl,
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.
- Gwella ein sgiliau athletau.

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

- Dysgu gweithio fel tîm i adeiladu cuddfan
- Mwynhau gofalu am yr amgylchfyd a'r planhigion o gwmpas yr ysgol a dysgu am ailgylchu.

**Gweithdy Ysgol Goedwig ym mharc Singleton—2ail o Orffennaf.**